

'YDYCH CHI'N GWNEUD YR HYN MAE DUW YN EI OFYN GENNYCH?

Nodyn i'r siaradwr:

Ysgogwch y gynulleidfa i roi y lle amlycaf mewn bywyd i addoli Jehofah ac i synhwyro nad yw addoli Jehofah yn feichus. Cyfrifoldeb pob addolwr yw dirnad gofynion Duw a'u cyflawni

MAE ANGEN MEDDWL O DDIFRI' AM OFYNION DUW (5 mun.)

Mae gennym ddiddordeb diffuant i ddeall ewyllys Duw; dyna pam daethom i'r cyfarfod hwn

Pa un ai newydd ddangos diddordeb yng Ngair Duw ydym neu os wedi bod yn ei astudio am gyfnod hir, 'ydym ni ddim yn cytuno ag agwedd pobl sy'n ceisio anwybyddu Duw

Mae'n amlwg i ni na ddaeth dibynnu ar athroniaethau dynol â hapusrwydd i'r ddynolryw

Mae cyflwr truenus cymdeithas ddynol yn ategu'r angen i droi at Air Duw, a'i ystyried o ddifri'

Nid yw Gair Duw yn ein hannog i fod yn hunanfodlon, gan ymfodloni ar ddweud ein bod yn credu ynddo (Iago 2:19; *w*85 9/1 3)

'Dyw gweithgareddau a bywydau llawer person sy'n honni credu yn Nuw ddim yn rhoi tystiolaeth eu bod nhw'n poeni o ddifri' ynglŷn â'i ofynion (Tit 1:16; *pe* 28-33)

Pwysleisiodd Iesu'r angen i fod yn weithredwyr ewyllys Duw (Mth 7:21)

DIRNAD YR HYN MAE DUW YN EI OFYN GENNYCH (35 mun.)

Sut medrwn wybod beth yw ewyllys Duw?

'Ydi'n sefyllfa ni mor wahanol i un pawb arall fel bod yn rhaid i Dduw siarad â ni'n bersonol?

Mae'r hyn sydd ei angen arnom yn y Beibl, ynghyd â'r cyhoeddiadau a ddarperir gan y 'gwas ffyddlon' i'n galluogi ni i'w ddeall (Mth 24:45-47; Act 8:31, 35; 2Tim 3:16, 17)

'Roedd ymwneud Duw ag Israel hen yn darparu arwyddion eglur ynglŷn â'i ewyllys ar gyfer y ddynolryw (Rhuf 15:4)

'Doedd yr hyn a ofynnai gan Israel ddim yn gaethiwus; y canlyniad oedd bodlonrwydd wrth wneud ewyllys Duw (Salm 16:11; Eseaia 48:17)

'Roedd y gofynion yn cyffwrdd â phob agwedd ar fywyd: meddyliau, cymhellion, perthynas â chyd-ddyn (Mc 12:28-33)

'Ydym ni'n gwerthfawrogi sut mae egwyddorion Gair Duw yn darparu cyfarwyddyd ar ein cyfer?

Pan ddatblygodd amgylchiadau drwg yn Israel, 'roedd hynny oherwydd peidio gwneud gofynion Duw; mantais i ni yw sylwi ar yr hyn ddywedodd Duw wrthynt drwy ei broffwydi, megis Micha

'Roedd anghymeradwyaeth Duw yn arbennig o gryf yn erbyn gau addoliad

Mae Jehofah yn ystyried eilunaddoliaeth gan bobl sy'n honni perthyn iddo yn rhywbeth mor atgas â phuteindra (Micha 1:7; *w*77 288)

Condemniwyd offeiriaid a honnai lefaru yn enw Duw ond a ddefnyddiai hynny i guddio'r ffaith eu bod nhw'n gwneud arian (Micha 3:11, 12; *kj* 132-3)

Da o beth fyddai inni ystyried y gwersi hyn yn ddwys

Mae pobl yn cwyno oherwydd y casgliadau diddiwedd yn yr eglwysi a'r ymbil cyson am arian, ond 'ydym' nhw'n anrhydeddu Duw drwy fod yn aelodau o gyfundrefn sy'n camddarlunio Duw fel un sy'n ecsbloetio pobl?

Beth am ddelwau cerfiedig, gwrthrychau materol a addolir? 'Ydyn ni wedi 'ffoi oddi wrth eilunaddoliaeth'? (1Cor 10:14)

'Ydyn ni'n gwneud duw o'n chwantau ein hunain? (Col 3:5; *g*79 4/22 6)

Drwy gyfrwng Micha, dangosodd Jehofah ei fod yn gofyn am weithredu'n onest mewn busnes hefyd (Micha 2:1, 2; 6:11, 12)

'Fedrwn ni ddim cymryd yr agwedd nad oes dim rhaid i'n materion busnes a'n bywyd gartref adlewyrchu egwyddorion uchel ein haddoliad (*w*60 408)

Pa les sydd o fynd i le addoliad a chlywed athrawiaethau Gair Duw os nad ydym yn eu cymhwyso nhw? (1Sam 15:22)

Dylai gwir addoliad effeithio ar ein bywyd; dylai ddylanwadu ar yr hyn a wnawn mewn busnes, gartref gyda'n teuluoedd, yn ein cyswllt â chymdogion

Mae addoli Jehofah yn haeddu'r amlygrwydd mwyaf yn ein bywyd; 'ydym ni'n bersonol yn gwneud hynny?

Rhagfynegodd Micha 4:1-4 yr hyn fyddai'n digwydd yn ein hoes ni, "y dyddiau diwethaf" (*w*81 7/15 18-22, 25)

Fe fyddai 'na bobl yn dyrchafu eu parch at addoli Jehofah yn uwch na phob peth arall

Yn yr hen amser lleoedd addoli oedd "mynyddoedd"

Yn ein hoes ni, mae pobl wedi gweithredu llawer ffurf ar gau addoli

Mae cenedlaetholdeb yn ei wahanol ffurfiau wedi dod yn dduw i lawer; duw rhai yw eu ffordd materol o fyw

Adroddwch brofiadau yn dangos fel mae pobl mewn sefyllfaoedd gwahanol wedi dyrchafu'r rhan a roddant i addoli Jehofah yn eu bywyd (*yb92* 42-64)

Oherwydd ymateb i Air Duw, byddai'r bobl y rhagfynegodd Micha amdanynt yn heddychlon

Er cymaint y pwysau gan y cenhedloedd ni fedrai dim eu perswadio nhw i gefnu ar eu heddwch gyda phobl cenhedloedd eraill

'Fyddden' nhw ddim yn dangos y drwgdeimlad sy'n aml yn amlwg rhwng hiliau; maen' nhw'n efelychu meddylfryd Duw, nad yw'n dangos ffafriaeth (Act 10:34, 35)

Byddai heddychlonrwydd yn treiddio i'r cynulleidfaoedd, cartrefi; yn arwain at ddiogelwch nid cweryla

'Ydyn ni'n rhan o'r darlun hwn, yn gwneud yr hyn mae Duw yn ei ofyn gennym fel disgrifir yn Micha 4:1-4?

Mae dyfodol rhyfeddol i'r rhai sy'n 'rhodio yn enw Jehofah'; mae ganddyn' nhw'r sail gobaith o wneud hyn am byth (Micha 4:5)

Mae hyn yn golygu ymgysgru i Jehofah a'i gynrychioli e yn un o'i addolwyr; mae'n golygu cyhoeddi ei enw a byw mewn harmoni â'i ewylllys (*uw* 18-19)

'Dyw hi ddim y tu hwnt i'n gallu ni i wasanaethu Duw yn dderbyniol; nid gofyn mae am aberth crand, balch, ond gwasanaeth cysegredig ac ymarweddiad cywir sy'n adlewyrchu cyflwr da'r galon (Micha 6:8; *w88* 3/15 19-20)

Gwneud beth sy'n iawn: Gwnewch yr hyn sy'n gyfiawn, yn deg, a gonest; gwnewch yr hyn y mae Duw yn ei ofyn; ymroddi'n eiddgeddus i Jehofah (*w88* 3/15 16-17)

Nid yw Jehofah yn goddef bod yn ail yn ein bywyd; rhaid inni fod wedi ymroi yn llwyr iddo, nid i chwantau'r cnawd (Num 25:5-8)

Amddiffynnwch eich calon drwy arfer hunanddisgyblaeth yn yr hyn y caniatewch i'ch meddwl oedi uwch ei ben

Rhowch wasanaeth cysegredig derbyniol o galon lân, gwbl ymroddedig (Salm 50:16-18, 23)

Caru ffyddlondeb: Dehongliad arall ar y gair Hebraeg yw "cariad teyrngar"

Yn ôl geiriadurwyr: "mae teyrngar yn ychwanegu at *ffyddlon* y syniad o fod eisiau sefyll ac ymladd dros y person neu'r peth, hyd yn oed yn erbyn llu anfanteision" (*w88* 3/15 17-19)

Profodd Iesu ei deyrngarwch i Jehofah yn ei *ufudd-dod* (Rhuf 5:19; Phil 2:8)

Fel yn hanes Iesu, bydd profi ar ein teyrngarwch ni i Jehofah a'i gyfundrefn

Mae amherffeithrwydd ein brodyr, gan gynnwys goruchwylwyr Cristionogol, yn rhoi prawf ar ein teyrngarwch i gyfundrefn Duw

'Fyddai hyn ddim yn cyflawnhau inni ymadael â chyfundrefn Duw (Salm 119:165; In 6:68)

Rhodio'n ostyngedig gyda'th Dduw: A ninnau'n gyd-weithwyr Duw, 'rydym yn ofni Jehofah ac yn tynnu'r prif sylw ato ef (*w88* 3/15 19-20)

Ystyriwch eich galluoedd a'ch gwerth eich hun yn bethau dinod (1Cor 3:6, 7; 4:7)

Mae'n hynod o addas i chi'r ieuencid eich addurno'ch hunain â gostyngeddwrwydd (Job 32:6, 7)

Mae gan y rhai sy'n eu cymhwyso'u hunain i wneud yr hyn y mae Duw yn ei ofyn reswm cadarn dros fod yn hyderus y bydd Duw yn cyflawni'r holl bethau a addawodd (Micha 7:7; *w78* 10/1 19)

Ni fydd yn methu yn ei fwriad i ddifetha'r gyfundrefn ddrwg

Yn ddiffael fe fydd Jehofah yn dod â'i gyfundrefn newydd gyfiawn i fodolaeth

PARHEWCH I WNEUD CYNNYDD WRTH WEITHREDU EWYLLYS DUW (5 mun.)

'Ydych chi eisiau gwybod rhagor am ewyllys Duw ar eich cyfer chi?

Gofynnwch i un o Dystion Jehofah eich helpu'n bersonol os nad ydych eto'n astudio'r Beibl

Mynychwch y cyfarfodydd yn gyson gyda'r rhai sy'n dymuno gwneud ewyllys Duw

Os ydych chi eisoes wedi'ch cysegru'ch hun, peidiwch â bod yn hunanfodlon; byddwch yn effro i bob cyfle i wasanaethu'n selog ac i ragori fwyfwy wrth gydymffurfio ag ewyllys gyfiawn Duw (2Pedr 3:17, 18; *w66* 370-1)

(Glynwch yn glôs wrth y deunydd a amlinellwyd, a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. 'Does dim angen darllen pob testun a grybwyllir. 'Does dim rhaid crybwyll y deunydd ffynhonnell mewn cromfachau)